| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Ionawr 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rod Urquhart** |
| **Teitl:** | **Polisi Dyledion Corfforaethol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Polisi Dyledion Corfforaethol newydd, mae'r polisi yn darparu dull cyfannol wrth ddelio â chwsmeriaid sydd â mathau lluosog o ddyled i Gyngor Sir Ddinbych

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mabwysiadu polisi newydd, gan drin cwsmeriaid yn gyfannol lle mae gan y cwsmer sawl dyled, yn hytrach na chael gwasanaethau unigol yn mynd ar drywydd y ddyled ar wahân.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Aelodau'n cymeradwyo'r 'Polisi Dyledion Corfforaethol' fel y dangosir yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Cefndir

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn codi a chasglu dyled yn y meysydd canlynol:

- Trethi Busnes
- Treth y Cyngor
- Gordaliadau Budd-daliadau Tai
- Rhenti Tai
- Mân Ddyledion (Gwasanaethau Cymdeithasol, Hamdden ac ati)

Holl ddyledion yn cael eu casglu gan y Tîm Gwasanaethau Refeniw ac eithrio Rhenti Tai sy'n gyfrifoldeb i'r Gwasanaeth Tai. Mae hyn wedi arwain at ddau wasanaeth yn delio â'r un cwsmer ar gyfer dau fath o ddyledion neu fwy. Mae gan hynny oblygiadau amlwg i'r cwsmer a dylai'r ymagwedd fod yn fwy cydgysylltiedig.

Mae'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn talu eu dyledion yn unol â'u hamserlenni talu, gyda nifer fawr o drafodion yn cael eu prosesu drwy Ddebyd

Uniongyrchol. Ar gyfer y cwsmeriaid hynny ni fyddai'r polisi newydd yn berthnasol i'w hamgylchiadau.

Fodd bynnag, pan fydd cwsmer yn methu â thalu yn unol â'r amserlen y cytunwyd arno, cymerir camau adennill o'r fframweithiau deddfwriaethol priodol. Unwaith eto yn y rhan fwyaf o achosion mae'r ddyled yn cael ei ddatrys yn hawdd ac er bod ethos y polisi newydd yn cael ei ddefnyddio nid oes angen galw i rym y camau gweithredu wedi'u cynnwys yn y polisi.

Roedd y ddau gategori olaf o gwsmeriaid gyda dyledion yn rai gan drethdalwyr sy'n 'gwrthod talu' neu'n 'methu â thalu'. Unwaith eto mae gan wasanaethau unigol brosesau a gweithdrefnau i ddelio â dau ddosbarth, ond mae hyn yn cael ei wneud o fewn y gwasanaeth hwnnw, yn hytrach nag uno a dod o hyd i ateb cyffredin ar gyfer y cwsmer.

## 4.1 Materion i'w hystyried

Mae'r polisi newydd yn mynd i'r afael â'r ddau gategori mewn modd cyfeillgar, teg ag urddasol. Y mater allweddol yw delio â dyledion lluosog yn gynnar fel bod gan y Cyngor y cyfle gorau i adennill ei ddyledion, ac i wneud hyn mewn dull cydgysylltiedig a chyson.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r rhan fwyaf o ddyledion yn cael eu prosesu gan y tîm Gwasanaethau Refeniw, fodd bynnag Tai sy'n gyfrifol am Rhenti Tai. Mae'r rhan fwyaf o ddyledion tai yn cael eu talu yn brydlon ond mae problemau'n codi pan fydd yr achos yn mynd y tu hwnt i lefel dderbyniol o ôl-ddyledion gan ysgogi'r broses o droi pobl allan. Mae hyn yn gostus, yn cymryd amser ac yn niweidiol i'r cwsmer.

Mae'r polisi yn arloesol o ran sefyllfaoedd dyled lluosog lle bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r trydydd sector yn gynharach yn y cylch o ddyled i weld os oes gan y cwsmer yr hawl i unrhyw fudd-daliadau lles a allai leihau lefel y ddyled, gan ysgafnhau'r symiau i'w had-dalu. Fel arall, os bydd gan y cwsmer ddyledion mawr (nid o reidrwydd dyledion i'r Cyngor), yna bydd y trydydd sector yn gallu adolygu amgylchiadau'r cwsmer ac awgrymu cwrs adferol o weithredu. Gall hyn fod yn amserlen dalu a fydd yn deg i bob parti, yn orchymyn rhyddhad dyled neu hyd yn oed ansolfedd.

## 4.2 Defnydd Gweithredol

Rhagwelir os cymeradwyir y polisi y bydd y tîm Rhenti Tai yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Refeniw, gan dynnu sylw at achosion posibl a chydweithio i drin dyled y cwsmer trwy ddefnyddio un dull sengl. Awgrymir bod hyn yn cael ei redeg fel cynllun peilot i fesur yr effaith o ran gwasanaeth i gwsmeriaid ac i adennill dyledion. Bydd hefyd yn ein galluogi i gryfhau ein cysylltiadau â'r trydydd sector ac i sicrhau bod prosesau cadarn yn eu lle cyn ei gyflwyno'n llawn.

Bydd cyfnod yr adolygiad yn cael ei roi ar waith dri mis ar ôl dechrau’r cynllun peilot, i weld y manteision i bob parti ac hefyd i wneud newidiadau i unrhyw brosesau neu weithdrefnau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Trwy ddwyn y gwahanol ddyledion ynghyd bydd gennym farn unigol o ddyled, ac felly gallwn helpu pobl ddiamddiffyn yn fwy prydlon, gan sicrhau eu bod yn byw bywydau mor annibynnol â phosibl.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

I ddechrau, tra yn y cynllun peilot ni fydd unrhyw gost, fodd bynnag, os bydd y fenter hon yn wirioneddol lwyddiannus, yna efallai y bydd angen defnyddio adnodd pwrpasol. Fodd bynnag, byddai’r cost lawn ar gyfer hyn yn fwy na chydbwyso i’r incwm ychwanegol a gynhyrchir. Byddai cynnydd hefyd mewn effeithlonrwydd gan mai’r un tîm a fyddai’n casglu dyledion.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.**

Amherthnasol gan fod y polisi yn cael effaith gadarnhaol ar yr holl gwsmeriaid.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae'r polisi wedi cael ei ystyried a'i gefnogi gan adrannau mewnol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Trydydd Sector

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig yn uniongyrchol i'r adroddiad hwn, fodd bynnag, bydd y dull newydd hwn o adennill dyledion yn trin y cwsmer fel un endid ac yn datrys materion dyled yn gynt nag ar hyn o bryd.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y risg ar hyn o bryd yw bod cwsmeriaid yn delio ag adrannau unigol ar gyfer gwahanol ddyledion a bydd yn cael anhawster wrth eu blaenoriaethu. Drwy fabwysiadu'r polisi hwn gellir dod â’r holl ddyledion at eu gilydd a rhoi cynllun talu ar waith, a fydd yn diogelu'r ffrydiau incwm i Gyngor Sir Ddinbych

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
Rheoliadau Treth y Cyngor a Gorfodi 1992
Deddf Tai 1988, 1996 a 2002